 North Ely Community Resource Centre  
 North Wales Association for Spina Bifida & Hydrocephalus  
 North Wales Christian Family Project, Stepping Stones  
 North Wales Resource Centre for Disabled People  
 North Wales Victim Support Scheme  
 North & West Wales Practice Centre  
 Offa Community Council - Wrexham  
 Ogwr Care & Repair  
 Ogwr Community Health Council  
 Ogwr Drug & Alcohol Self Help  
 Ogwr Groundwork Trust  
 Ogwr MIND  
 Ogwr Single Homeless Action Committee  
 Old Barn Family Centre - Abergavenny  
 Old Parish Enterprise - Maesteg  
 Open University in Wales  
 Opportunity Housing Trust  
 Palmerston Community Education Centre  
 Pembrokeshire MIND  
 Pembrokeshire Opportunities Initiative Project (Mencap in Wales)  
 Pengwern Further Education College  
 Penygraig Community Project  
 People & Work Unit - Abergavenny  
 Planning Aid Wales  
 Pontypool MIND  
 Pontypridd Citizens Advice Bureau




# Aelodau CGGC ♦ WCVVA members

- Pontypridd Housing Association  
Pontypridd Volunteer Bureau  
Port Talbot & Afan Single Homeless Society  
Powys AIDS Line  
Powys County Council  
Powys Victim Support  
Presbyterian Church of Wales Youth Service  
PRESS (Planned Residential Support Services)  
Prince of Wales Committee - Mold  
Prince of Wales Committee - Newtown  
Prince's Youth Business Trust  
Princess Margaret School, Barnardos - Taunton  
Racism Awareness Consultancy and Education  
Radnor Care & Repair  
Radnor Support Project  
Ramblers' Association  
Relate North Wales  
Relate South Wales  
Re-Solv (The Society for the Prevention of Solvent & Volatile Substance Abuse)  
Rhayader & District Community Support  
Rhondda Community Arts  
Rhondda Mencap Society  
Rhydney Valley Community Health Council  
Rhydney Valley Home-Start  
Rhydney Valley Social Services  
Rhydney Valley Women's Aid  
Royal Society for the Protection of Birds  
Save the Children Fund - Cynon Valley Project  
Sense Cymru  
Sequal  
South Glamorgan Alzheimers Disease Society  
South Glamorgan County Council  
South Glamorgan County Libraries  
South Glamorgan Crossroads Care  
South Glamorgan Play Services Association  
South Glamorgan Playbus Association  
South Glamorgan Probation Services  
South Glamorgan Race Equality Council  
South Glamorgan Social Services  
South Pembrokeshire Partnership for Action with Rural Communities  
South Riverside Community Development Centre - Cardiff  
South Wales Association for Spina Bifida and Hydrocephalus  
South Wales Convalescent & Rest Home  
South Wales Federated Housing Association Ltd  
South Wales Miners' Library  
Spastics Society - Wales Regional Office  
Special Needs Housing Advisory Service  
Specialist Money Advice Bureau  
St Briavels Centre for Child Development  
St David's Foundation - Newport  
Staying Put Agency - Newport  
Staying Put Agency - South Pembrokeshire  
Streets Project - Ammanford  
Swansea Citizens Advice Bureau  
Swansea City Council, Housing Department  
Swansea Drugs Project  
Swansea & Lliw Valley Crime Prevention Panel  
Swansea MIND  
Swansea Student Community Action  
Swansea Womens Resource & Training Centre  
Swansea Young Single Homeless Project  
Switch - Bridgend  
Taff Ely Drug Support Group  
Teen Challenge UK  
Telecottages Wales  
Tenants Participation Advisory Service (Wales)  
Tenovus  
Tenovus Cancer Information Centre  
Tirion Trust Ltd  
Torfaen Citizen Advocacy  
Torfaen Community Transport & Dial-A-Ride Scheme  
Torfaen Women's Aid  
Transport & General Workers Union Retired Members Association  
Trust for Sick Children in Wales  
Ty Glyn Housing Society, Cardiff  
Ty Hafan Children's Society, Hospice in Wales  
Tyddyn Mon Ltd  
United Nations Association, International Youth Service  
United Welsh Housing Association  
University of Wales, College of Cardiff Library  
Urban Regeneration Project  
Vale of Clwyd MIND - Denbigh  
Vale of Clwyd MIND - Rhyll  
Valley Arts Marketing  
Valley & Vale Community Arts  
Valleys' Initiative for Adult Education  
Voluntary Arts Network  
Voluntary Community Service - Cardiff  
Volunteer Centre UK  
Wales & West Housing Association  
Wales Youth Agency  
The Wallich Clifford Community - Cardiff  
Welsh Agricultural College, Joint Library  
Welsh Centre for Learning Disabilities  
Welsh Development Agency  
Welsh Office, Library  
Welsh Tenants Federation  
Welsh Women's Aid - Aberystwyth  
West Glamorgan Community Education  
West Glamorgan Forum  
West Wales Arts  
WRAP (Wrexham Advocacy Partnerships)  
Wrexham Maelor Community Agency  
Wrexham Maelor Groundwork Trust  
Wrexham Maelor Home-Start  
Ynys Mon & Anglesey Community Health Council  
Youthlink Wales  
Ystradgynlais Citizens Advice Bureau



# Adroddiad blynyddol CGGC

| 9 9 3 ♦ | 9 9 4



CYNGOR  
GWEITHREDU  
GWIRFODDOL  
CYMRU



WALES  
COUNCIL FOR  
VOLUNTARY  
ACTION





*Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff 'ymbarél' cenedlaethol sy'n cynrychioli elusennau, grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yng Nghymru.*

*Trwy lobio, ymgynghori â'i aelodau a chydweithio ag eraill mae CGGC yn anelu at hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol. Mae'n gweithio i gynyddu'u hadnoddau, eu gwneud yn fwy effeithiol a sicrhau fod eu cyfraniad i fywyd Cymru'n cael ei gydnabod a'i ddeall.*

*Mae CGGC hefyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant.*

*Mae gennym ddau ddeg un o staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yng Nghaerffili, y Trallwng a Llandudno, gyda 470 o fudiadau ac unigolion yn perthyn i'r Cyngor ledled Cymru, ac yn gweithio ym mhob maes o weithredu gwirfoddol.*

## **Aelodaeth**

*Mae CGGC yn elusen annibynnol. Ymunwch â ni ac fe fyddwch yn derbyn ein cylchgrawn misol sy'n cynnwys newyddion a barn o'r sector wirfoddol, cylchlythrau ynghylch cyfarfodydd, cyrsiau hyfforddi a chyhoeddiadau newydd, gostyngiadau ar rai cynadleddau a chysiau yn ogystal â blaenoriaeth ar gyfer derbyn rhai gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.*

Mae **aelodaeth lawn**, sy'n costio £20, yn agored i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol (Cymru) a chynghorau gwirfoddol sirol. Bob blwyddyn mae aelodau llawn yn ethol y Pwyllgor Gweithredol sy'n rhedeg y mudiad.

Mae **aelodaeth gysylltliol**, sy'n costio £12, yn agored i fudiadau lleol, canghennau o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, asiantaethau statudol ac unigolion.

Gall y manylion hyn newid ym 1994/95.



## Rhagair gan gadeirydd CGGC Marjorie Dykins

*Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i'n holl aelodau a chyfeillion, fe hoffwn ddechrau trwy ddiolch yn fawr i Syr Donald Walters am ei gyfraniad sylweddol i waith y Cyngor yn ystod ei*

*saith mlynedd fel cadeirydd. Cyflawnwyd llawer yn ystod y cyfnod hwnnw.*

Dyma dri nodyn gan eich cadeirydd newydd.

- ◆ I ddechrau, diolch i bawb sydd wedi'n cynorthwyo dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnig anogaeth, cyngor, arian a chefnogaeth.
- ◆ Yn ail, hoffwn eich atgoffa na fyddai CGGC yn gallu gweithredu heb ei aelodau i ddatblygu ei wasanaethau a chynnig eu hymateb er mwyn cyfoethogi'i gyfraniad i fywyd cenedlaethol Cymru.
- ◆ Yn drydydd, penblwydd hapus yn chwe deg mlynedd oed. Rhaid cwrdd â sialens newydd y sector wirfoddol o fewn cyd-destun nodweddion arbennig Cymru. I ymroddiad a gwaith caled staff CGGC mae'r diolch fod hyn wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Edrychwn ymlaen i weithio gyda'r holl asiantaethau hynny sy'n gwasanaethu pobl Cymru, ac i'r amseroedd da sydd o'n blaenau!

*Marjorie Dykins*

Marjorie Dykins

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

*Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un anodd i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru, wrth iddyn gyllunio ar gyfer cyfnod o newidiadau nas gwelwyd eu math o'r blaen ac ymdopi â'r newidiadau hynny.*



Mae'r newidiadau'n aml yn deillio o ddeddfwriaeth newydd sydd, yn ei thro, yn creu strwythurau, polisiau, perthnasau a threfniadau cyllido newydd. Mae newid o'r fath, ynghyd â'r hinsawdd economaidd gyffredinol ble mae gwariant cyhoeddus a phreifat wedi'i rewi neu'i gwtogi, wedi ysgogi trafodaeth ynghylch cyfeiriad a phwrpas elusennau a mudiadau gwirfoddol yn y dyfodol.

Yn yr hinsawdd hwn, mae mudiadau'n bryderus ynghylch eu dyfodol, er bod llawer ohonynt yn cynllunio'n ofalus ar ei gyfer.

Y sialens i CGGC, fel llais cenedlaethol Cymru dros fudiadau gwirfoddol, yw sicrhau fod y newidiadau'n dod â chymaint o gyfleoedd â phosibl gyda hwy, yn hytrach na niweidio gweithgaredd gwirfoddol.

Golyga hyn fod rhaid cael cynlluniau clir ar gyfer y dyfodol yn ogystal â chynrychiolaeth effeithiol a'r gallu i ddylanwadu ar bolisiau. Mae hefyd yn golygu datblygu mwy o sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer y sector ac annog unigolion i fod yn hyderus yn eu rôl fel ymddiriedolwyr.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu effeithiolrwydd a gweithgaredd cynyddol CGGC yn y meysydd hanfodol hyn ac yn cynnig sail i'w raglen ar gyfer y dair mlynedd nesaf.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf bydd CGGC yn parhau i godi ei lais ar faterion sydd o bwys i fudiadau gwirfoddol, yn ogystal â chynorthwyo ymddiriedolwyr a mudiadau i sefydlu cysylltiadau gyda'r awdurdodau iechyd a lleol newydd, a denu ffynonellau cyllid newydd i sicrhau'u bod yn fwy effeithiol ac annibynnol.

Bydd CGGC hefyd yn parhau i ddatblygu'i weithgareddau a chynyddu'i asedau ei hun fel y gall ef, hefyd, sicrhau ei annibyniaeth a'i ddyfodol ledled Cymru.

*G Benfield*

Graham Benfield



*Bu raid i sector wirfoddol Cymru wynebu nifer o newidiadau araf ond sylfaenol yn ei amgylchedd gwaith ym 1993/94. Mae'r adroddiad sy'n dilyn yn manylu ynghylch y rhai mwyaf arwyddocaol, yn ogystal â'r camau a gymerodd CGGC i ymateb iddynt.*



Cyfarwyddwr CGGC Graham Benfield yn lansio Anelu at Amcanion Cyffredin yng Nghaerdydd.

## Cefnogaeth y llywodraeth ganolog

Collodd Cangen Sector Wirfoddol y Swyddfa Gymreig rai o'i staff a derbyn y cyfrifoldeb am fentrau gwrth-droseddwy'r ystod y flwyddyn. Dangosodd arolwg gan CGGC fod rhai o argymhellion 1990 ar gyfer gwella'r berthynas gyda'r sector wirfoddol - fel gwella'r cysylltiad cyffredinol gyda'r grwpiau - wedi'u mabwysiadu, ond nad oedd eraill a ddylai fod wedi'u mabwysiadu erbyn canol 1993 wedi ymddangos. Yn arbennig, llai na hanner y grwpiau a dderbyniai grant gan y Swyddfa Gymreig oedd yn gwybod beth oedd swm y grant hwnnw erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Nid oes yna bolisi pendant ar wirfoddoli o hyd, a mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Strategol fel ffynhonnell gyllid yn lle'r Rhaglen Drefol a Menter Cefn Gwlad - heb ymgynghori gyda'r sector wirfoddol.

Er hynny ymgorfforwyd, yng Nghannllawiau'r Swyddfa Gymreig, argymhellion CGGC ar gyfer mesurau i ddiogelu grwpiau gwirfoddol sy'n cael eu cyllido gan lywodraeth leol yn ystod y cyfnod ad-drefnu.

## Cefnogaeth llywodraeth leol

Roedd gohirio creu awdurdodau unedol (Ebrill 1996 erbyn hyn) yn rhoi amser i grwpiau sy'n derbyn cyllid gan lywodraeth leol baratoi. Anogodd CGGC y grwpiau lleol, trwy gyfrwng cyfarfodydd poblogaidd a'i *Essential Guide to Reorganisation*, i drefnu'u hunain yn ardaloedd y cynghorau newydd a sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed mewn da bryd ar gyfer yr ad-drefnu. Rhoddodd CGGC hefyd welliannau i'r Mesur ad-drefnu ger bron y Senedd, gan alw am warchod cyllid mudiadau gwirfoddol yn ystod y newidiadau.

Lansiodd CGGC *Anelu at Amcanion Cyffredin* - menter a chyhoeddai ar y cyd gyda'r Swyddfa Gymreig, Cymdeithas Siroedd Cymru a Chyngor Dosbarthau Cymreig - sy'n ceisio gwella'r berthynas waith rhwng grwpiau gwirfoddol a

llywodraeth leol. Dangosodd gwaith ymchwil CGGC hefyd fod awdurdodau lleol wedi darparu mwy o gyllid i grwpiau Cymreig ym 1992/3 nag ym 1990/91.

Cychwynnwyd ar waith ymchwil i gyllid yr awdurdod iechyd i'r sector wirfoddol a'r berthynas rhyngddynt.

## Gwirfoddoli

Gyda chymorth cyllid gan y Swyddfa Gymreig, cynorthwyodd CGGC i gyd-gysylltu Wythnos Wirfoddolwyr Canolfan Gwirfoddolwyr Prydain yng Nghymru. Buom hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau arferion da a threfnu cyfres o seminarau ar bynciau fel gwirfoddoli, budd-daliadau a rheoli gwirfoddolwyr. Parhaodd CGGC i gyd-gysylltu Fforwm Trefnwyr Gwirfoddoli a chynrychioli mudiadau gwirfoddol Cymru ar lefel Brydeinig.

## Cyllid Ymddiriedolaethau

Mae dwy ran o dair o'r arian elusennol i ymddiriedolaethau'n mynd i dde-ddwyrain Lloegr. Ceisiodd CGGC roi cyhoeddusrwydd i'r sefyllfa a datrys y problem trwy gynyddu'r cysylltiadau gydag ymddiriedolaethau a dod â ddau ddeg wyth ohonynt i Gymru am y dydd i edrych ar y rhwystrau sy'n bodoli i gyllido grwpiau Cymreig. Parhaodd CGGC hefyd i lobio am ymddiriedolaeth elusennol yng Nghymru, er fod cynnig i ddefnyddio Cyllid Deddf Eglwysi Cymru at y diben hwn wedi bod yn aflwyddiannus.





Marc Phillips, cyfarwyddwr Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Dyfed yn siarad yn yr Eisteddfod.

## Y Pafiliwn Gweithredu Gwirfoddol

Balwnau, corau, sgysiaiu a digon o ymwelwyr - roedd gan y Pafiliwn Gweithredu Gwirfoddol bopeth. Bu'r pafiliwn hwn, y cyntaf o'i fath i gael ei drefnu gan y CGGC a Chyngor Cymru i'r Anabl yn gartref dros dro i bedwar ar ddeg o wahanol grwpiau

gwirfoddol o dan y faner Efo'n Gilydd ac yn blatfform amlwg i weithgarwch gwirfoddol.

Roedd y grwpiau a gymerodd ran a'r ymwelwyr i gyd yn cytuno bod y fenter yn

llwyddiant ac yn gyfle i fudiadau gydweithio, dysgu am eu gilydd a thargedu cynulleidfa Gymraeg ei hiaith.

Cafodd y Pafiliwn sylw amlwg yn y wasg ac mae disgwyl iddo dynnu mwy fyth o sylw yng Nghastell-nedd ym mis Gorffennaf eleni.



Côr Byddariaid Casnewydd yn perfformio ym Mhafiliwn Gweithredu Gwirfoddol yr Eisteddfod.

## Yr Iaith Gymraeg

Ym 1993 gwelwyd y Pafiliwn Gweithredu Gwirfoddol cyntaf erioed yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Trefnwyd y pafiliwn, oedd yn cynnwys pedwar grŵp ar ddeg, gan CGGC a Chyngor Cymru i'r Anabl, a chododd broffil y sector ar y Maes yn sylweddol. Bu lobio CGGC ar y Mesur Iaith hefyd yn llwyddiannus - sy'n golygu fod grwpiau yn gweithio yn y Gymraeg yn gallu cyhoeddi'u statws elusennol yn y Gymraeg yn unig erbyn hyn.

Cynhyrchodd CGGC fwy o gyhoeddiadau a threfnu mwy o ddigwyddiadau dwyieithog nag yn y gorffennol a gwnaethpwyd cais i'r Bwrdd Iaith am brosiect i gynorthwyo grwpiau Cymreig i ddatblygu polisïau iaith.



Doug Morris, Swyddog Gyllid CGGC wrthi'n paratol stondin CGGC yn yr Eisteddfod.

## Ewrop

Cynyddodd y gwaith Ewropeaidd wrth i CGGC weithio i wneud grwpiau'n fwy ymwybodol o gyllid a pholisïau Ewrop. Ym mis Tachwedd proseswyd 119 o geisiadau am Gyllid Strwythurol Ewrop (ESF) gwerth £6.5m gan CGGC - o'i gymharu â cheisiadau gwerth £2.8m y llynedd. Rhoddwyd £2.5m o gyllid ESF i'r sector wirfoddol yng Nghymru ym 1993, sef £1m yn fwy na 1992. Bu CGGC yn ymwneud llawer â'r gwaith o ddrafftio rhaglenni newydd ar gyfer cynlluniau Ewropeaidd mawr. O ganlyniad i hyn, derbyniodd prosiectau datblygu cymunedol gyllid am y tro cyntaf erioed. Rydym hefyd wedi ymateb i feysydd pwysig fel dyfodol polisi cymdeithasol yn Ewrop, lobiw ar sawl maes polisi a pharhau i gefnogi rhwydweithiau

Ewropeaidd. Mae hyn wedi codi profil y sector wirfoddol a thynnu sylw at feysydd y mae'r sector wedi mynegi pryder yn eu cylch.



## Loteri cenedlaethol

Mae CGGC yn credu y bydd chwarter ceiniog o'r tocynt loteri £1 yn mynd i elusennau Cymreig, ac mae perygl y bydd y loteri cenedlaethol yn profi'n fgythiad i ddulliau traddodiadol o godi arian. Ceisiodd CGGC roi cyhoeddusrwydd i'r pryderon hyn a rhoi gwybod i grwpiau am yr hyn ddylent ei ddisgwyl. Rydym hefyd wedi lobio i sicrhau fod gan Gymru gynrychiolaeth yn y penderfyniadau ynghylch sut bydd yr arian yn cyrraedd elusennau, a chynnig pobl i eistedd ar Fwrdd Elusennau y Loteri Cenedlaethol.




Trefnwyd Cynhadledd i'r Wasg fis Chwefror 1994 i lansio adroddiad CGGC ar brofiadau grwpiau gwirfoddol dros ddeg mis cynaf o ofal yn y gymuned. (Chwith i'r dde) Judith Jones (Croesffordd Cymru), Graham Benfield (Cyfarwyddwr CGGC), Peter Bryant (Swyddog Datblygu Cenedlaethol CGGC ac awdur yr adroddiad Gofal yn y Gymuned), Margaret Knight (Cyd-drefnydd Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yng Nghymru).

## Gofal yn y gymuned

Mae safon y gofal cymunedol rydych yn ei dderbyn yng Nghymru yn dibynnu ar ble rydych yn byw a beth rydych yn dymuno'i gael. Yn ogystal â hyn, mae'r system contractau newydd yn golygu fod costau'n cael blaenoriaeth dros ansawdd. Datgelwyd y cychwyn sigledig hwn i'r gwasanaeth gan ymchwil CGGC ar brofiadau'r sector wirfoddol o'r newidiadau, a derbyniodd yr ymchwil honno lawer iawn o gyhoeddusrwydd.

## Yr amgylchedd


Wedi dwy flynedd o weithio gyda llawer o bobl a grwpiau ym maes yr amgylchedd, cynhyrchodd CGGC a Chyfeillion y Ddaear Cymru *Tyfiant Gwyrdd*, canllaw ymarferol i helpu grwpiau gwirfoddol yng Nghymru ddog o hyd i'r arferion gwaith mwyaf 'gwyrdd'. Dilynwyd hyn gan ddau ddiwrnod o hyfforddiant.



Llwyd y Tywod, un o'r adar y mae'r grwpiau amgylcheddol yn ceisio gwarchod drwy ymgyrchu yn erbyn yr ail drafoddd lfeleau Gwent ardraws.

## Cyfiawnder troseddol


Comisiynodd CGGC bapur crynhoi ar newidiadau diweddar y llywodraeth i'r system cyfiawnder troseddol a sut maent yn debygol o effeithio ar grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y maes.



Cyhoeddwyd *Tyfiant Gwyrdd* gan Cydd Cymru a CGGC fel canllaw i grwpiau gwirfoddol Cymreig gyda chynngor ar sut i 'wyrddio'ch man gwaith ar gyllid bach.







Lansiwyd fideo'r Comisiwn Elusennau *The crucial guide to trusteeship* yr un pryd â Phecyn Gwybodaeth CGGC i Ymddiriedolwyr. Seren y fideo yw Lenny Henry.

## Gwasanaethau Hyfforddiant

Wedi ymgynghori, lluniodd CGGC raglen hyfforddiant ar gyfer 1993/94 sy'n anelu at gwrdd ag anghenion y sector. Roedd yn cynnwys cyrsiau un-dydd mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru a chyrsiau preswyl byr wedi'u trefnu gan hyfforddwyr profiadol ar faterion fel cyllid o Ewrop, y Ddeddf Elusennau (gyda'r Comisiwn Elusennau) a datblygu staff.

Roedd y dau ddeg tri o gyrsiau hyfforddiant-mewn-swydd - dwywaith cymaint â'r disgwyl - a drefniwyd yn benodol i ateb gofynion penodol hefyd yn llwyddiannus.

Wedi darganfod fod llawer llai o ymddiriedolwyr nag a gredid yn ymwybodol o'u hatebolrwydd a'u cyfrifoldebau, lansiodd CGGC *Becyn gwybodaeth i ymddiriedolwyr* a chychwyn gweithio ar raglen hyfforddiant. Gobeithir y bydd, yn y pendraw, yn cyrraedd y miloedd o ymddiriedolwyr yng Nghymru.

Ymdriniwyd â chwestiynau ar bob agwedd o faes hyfforddiant, a rhoddwyd cymorth ar faterion fel cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol. Rhoddwyd cymorth hefyd i Rwydwaith Cymorth Hyfforddiant Cymru.



Mike Palmer o CGGC ym Mhafliw'n Gweithredu Gwirfoddol yr Eisteddfod gyda Rhaglen Hyfforddiant 1992/3.

Ydych chi'n  
ymddiriedolwr? Ydych  
chi'n amau'ch bod ond ni  
wyddoch i sicrwydd beth  
mae'n ei olygu? Wel  
peidiwch â chynhyrfu!  
Mae help wrth law ym  
Mhecyn Gwybodaeth  
CGGC i Ymddiriedolwyr.  
Mae'r pecyn hwn a  
lansiwyd yr un pryd â  
fideo'r Comisiynwyr  
Elusennau A Crucial  
guide to trusteeship gyda  
Lenny Henry, wedi'i  
anelu at y 250,000 o  
ymddiriedolwyr y tybir  
sydd yng Nghymru ac  
mae'n trafod pynciau  
mor ddryrs ond mor  
hanfodol â chyfrifon, codi  
arian, rheoli ac  
atebolrwydd. Fel yr  
awgrymir, nid oes  
problemau'n debyg o  
godi'n aml ond os na w'yr  
ymddiriedolwyr eu  
cyfrifoldebau pa ddisgwyl  
i neb arall wybod!





Mylfyrwyr crochenwaith yn Fferm Ymddiriedolaeth Arnelia, a ymddangoswyd yn Rhwydwaith Cymru CGGC.

## Cyngor

Mae gwasanaethau cyngor CGGC yn canolbwyntio fwyaf ar gyllid, gan gynnwys cyllid o Ewrop, a materion cyfreithiol. Ar yr ochr gyfreithiol, ymdrinwyd â 169 o ymholiadau ar faterion fel cyfansoddiadau ac atebolrwydd ymddiriedwyr. Yn ogystal, mae gwaith i ddiweddarau cyfansoddiad ac aelodaeth CGGC ei hun yn mynd rhagddo.

Deliwyd â mwy na thri chant o ymholiadau ym maes cyllid, a defnyddiodd oddeutu hanner y rheiny wasanaeth Bas Data 'Funder Finder' CGGC.

Wrth gloriannu gwasanaeth cyngor CGGC ar gyllid, gwelwyd fod y mudiadau i gyd yn fodlon ar y gwasanaeth, ond fod peth rhwystredigaeth gyda'r bas data 'Funder Finder'. Roedd llawer o alw am wybodaeth mwy lleol a phenodol. Darganfuwyd hefyd fod dros 40% o'r mudiadau oedd yn cysylltu â CGGC yn gwneud hynny ar argymhelliad eraill.

Ymdrinwyd â 550 o ymholiadau ar Ewrop - llawer mwy na'r disgwyl. Dosbarthwyd gwybodaeth yn rheolaidd i rwydwaith Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yn ogystal â thrwy swyddfeydd cynghori, cymorth unigol a hyfforddiant.



Darlledwyd y rhaglen Really Helpful Programme gan HTV am y tro cyntaf ym 1993 ac y mae'n trin ag amrywiaeth o bynciau cymunedol a grwpiau gwirfoddol. Uchod (chwith i'r dde), Jill Taylor (gweinyddydd), Sara Jones (cyflwynydd), Davina Page (gohebydd), David Lloyd (cynhyrchydd).

## Gwybodaeth

Adolygwyd cylchgrawn misol CGGC, Rhwydwaith Cymru, a phenderfynwyd ei ailddylunio a'i ail-lansio. Cynyddodd y referniw hysbysebu o'r cylchgrawn. Ymunodd Menter Gymunedol Cymru â'r saith cyngor gwirfoddol sirol sy'n derbyn cylchgrawn deu-fisol, dwyieithog CGGC. Parhaodd gwasanaeth newyddion neu 'wasanaeth gwybodaeth gyfredol' CGGC, a diweddarwyd y gyfres o dafenni gwybodaeth.

Cynhyrchwyd pymtheg o gyhoeddiadau, yn ogystal â deunydd cyhoeddusurwydd a deunydd ar gyfer arddangosfeydd. Lanswyd cyfresi *Adroddiad a Chrynhai* newydd, ac roedd ffigurau gwerthiant y cyhoeddiadau hynny a oedd ar werth yn dda iawn. Cafwyd o leiaf 40% yn fwy o sylw gan y cyfryngau, gyda 32 o ddatganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau ac o leiaf 115 o eitemau'n cael eu cyhoeddi neu'u darlledu.

Llwyddwyd i gynnal llyfrgelloedd a basau data CGGC ac atebwyd 1,200 o ymholiadau cyffredinol ar bob agwedd o weithgaredd gwirfoddol.



## Cymorth a chynrychiolaeth

Parhaodd CGGC i gynrychioli'r sector ar lu o faterion mewnol ar lefel Prydeinig ac Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn. Cynorthwywyd nifer o rwydweithiau a fforwmau sy'n ymwneud â'r sector wirfoddol, er mwyn ceisio hybu sector gyson, gydlyn ac effeithiol yng Nghymru. Yn benodol, cafwyd cynnydd dramatig yn y cysylltiadau gyda grwpiau yng Ngogledd Cymru a dechreuodd swyddfa'r Trallwng ganolbwyntio'n llwyr ar Ewrop, gyda'r gwaith ar ardaloedd gwledig yn symud i swyddfa Llundudno. Yn fewnol, sefydlodd CGGC weithgor i adolygu'i ddelwedd gorfforaethol.



Swyddog Gogledd Cymru CGGC Mike Palmer yn croesawu ymwelwyr ifanc i stondin CGGC yn yr Eisteddfod.

Droeon clywyd cyfweiliadau gan swyddogion CGGC ar Be' Neso? rhaglen gylchgrawn a gyflwynir gan Elin Rhys (dde).

## Cronfa Wirfoddoli yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Elusennol Esmee Fairbairn

Mae 1137 o wirfoddolwyr mewn tri deg o grwpiau'n derbyn cyllid gan y Gronfa Wirfoddoli yng Nghymru (VIWF), sy'n cael ei gweinyddu gan CGGC ar ran y Swyddfa Gymreig.

Mae'r gronfa'n rhoi mwy o gyfle i bobl Cymru wirfoddoli. Ond datgelodd gwybodaeth o'r ceisiadau fod argyfwng ariannol yn bodoli mewn llawer ardal - yn arbennig y Canolfannau Cyngori, grwpiau cludiant cymunedol, Cymorth Dioddefwyr a Chymorth Menywod. Roedd canolfannau gwirfoddolwyr newydd a hyfforddiant i wirfoddolwyr hefyd yn wynebu problemau ariannol yn y tymor hir.

Mae CGGC hefyd yn gweinyddu grantiau bychan ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol Esmee Fairbairn, sydd wedi'i lleoli yn Llundain. Ym 1993/94 gwnaethpwyd chwe deg dau o roddion i grwpiau gwirfoddol, sef cyfanswm o £26,115.



Yn gynnar yn y flwyddyn 1994, anfonodd Llinell Drais ac Ymosodiadau Rhywiol Caerdydd lythron brys allan yn gofyn am gymorth ariannol er mwyn arbed y gwasanaeth. Nid yw'r llinell yn gymwys ar gyfer unrhyw grantiau statudol, "d'yn ni ddim yn fficio i mewn i unrhyw gategori hwylus" esboniodd eu llafarydd Maggie Phillips. "D'yn ni ddim yn achos ffasiynol, does gan y Llywodraeth ddim diddordeb o gwbl a dyw'r sefydliadau mawr ddim eisiau gwylod". Ym Mawrth rhoddodd Cronfa Wirfoddoli Cymru o dan weinyddiaeth CGGC daliad brys o £3,576 i arbed y llinell a'i 25 o wirfoddolwyr yn y tymor byr. Rhoddodd y gronfa hon daliadau tebyg i gynlluniau Cymorth i Dioddefwyr Trais yng Ngwynedd a Gogledd Cymru sydd er gwaethaf peth cymorth o'r Swyddfa Gartref yn cael cryn drafertth i gadw dau ben llinyn ynghyd.



## 1993 Ebrill

- ◆ Deddf Gofal yn y Gymuned yn dod i rym. CGGC yn rhybuddio ynghylch y posibilrwydd o gam-ddefnyddio gwirfoddolwyr.
- ◆ Seminar CGGC/Comisiwn Elusennau - Llandrindod.

## Mai

- ◆ Tri chwrs hyfforddi ar wirfoddoli gan CGGC.
- ◆ Lansio Rhwydwaith gwrth-dlodi Cymru
- ◆ Y Trysorlys yn cyhoeddi treth o 12% ar y loteri cenedlaethol.

## Mehefin

- ◆ Cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Strategol.
- ◆ Seminar CGGC/Comisiwn Elusennau - Caerfyrddin.
- ◆ Trychineb llifogydd Tywyn.

## Gorffennaf

- ◆ Peter Lilley yn rhybuddio am doriadau i fudd-dâl analluedd.
- ◆ CGGC yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori yng ngogledd a de Cymru ar Ddiwygio'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.
- ◆ Lansio rhaglen hyfforddiant flynyddol CGGC.
- ◆ Yn dilyn lobio gan CGGC, y Mesur laith yn cynnwys yr hawl i grwpiau gyhoeddi statws elusenol yn y Gymraeg yn unig.
- ◆ CGGC yn ymateb i Bapur Gwyn ar ad-drefnu llywodraeth leol.



- ◆ CGGC yn cyhoeddi crynhoad o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol.

Cyfarfod o gynrychiolwyr ymddiriedolaethau prydeinig a grwpiau gwirfoddol adag Codi Pontydd a drefnwyd gan CGGC yng Nghaerdydd.

## Awst

- ◆ Pafliwn Gweithredu Gwirfoddol cyntaf erioed yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi'i drefnu gan CGGC a Chyngor Cymru i'r Anabl, ac yn cynnwys pedair ar ddeg o elusennau.
- ◆ Cyhoeddi Gwobrau Menter Wybodaeth Gofal yn y Gymuned.
- ◆ Y Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar reolau codi arian.

## Medi


- ◆ Cynhadledd flynyddol CGGC yng Ngharno - Y dyfodol ar ein telerau ni.
- ◆ Lansio Anelu at Amcanion Cyffredin yn ne Cymru.



Ysgrifennydd Gwladol Cymru John Redwood (Chwith) yn cyflwyno Gwobrau Gwybodaeth Gofal yn y Gymuned (Awst 1993) i Graham Williams a swyddogion adran gwasanaethau cymdeithasol Morgannwg Ganol (blaen) Anne Jones o banel asesu Morgannwg Ganol ar gyfer defnyddwyr a chynhalwyr.

## Hydref

- ◆ Cyhoeddi adroddiad Gweithredu Gwirfoddol Centris.
- ◆ CGGC yn ethol Marjorie Dykins fel cadeirydd i olynu Syr Donald Walters. Jane Hutt yn cael ei gwneud yn is-gadeirydd.



Cynllun Hyfforddi Gwely a Brecwast Coleg Pengwern.



## Tachwedd

- ◆ CGGC yn prosesu 119 o geisiadau gwerth £6.8m i'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.

- ◆ John Redwood yn cyhoeddi gohirio ad-drefnu llywodraeth leol hyd 1996.
- ◆ Y Mesur Loteri Cenedlaethol yn dod yn gyfraith gwlad.
- ◆ Cynhadledd 'argyfwng adnoddau' CAF yn cael ei chysylltu â digwyddiad gan CGGC yng Nghaerdydd.
- ◆ CGGC yn cynnal Cynhadledd Ewropeaidd yng Nghaerdydd gyda'r WDA a Chyngor Sir Morgannwg Ganol.
- ◆ CGGC a'r Fforwm Trefnwyr Gwirfoddoli yn cyhoeddi *Canllawiau i Drefnwyr Gwirfoddoli*.
- ◆ Cyhoeddi trydydd *Cyfeiriadur CGGC o Fudiadau Gwirfoddol*.

## Rhagfyr

- ◆ Lansio NVQS mewn cadwraeth yng Nghymru.
- ◆ CGGC yn cyhoeddi *Deddf Plant 1989 - Canllaw i Fudiadau Gwirfoddol*.
- ◆ Pasio'r Ddeddf Iaith.

## 1994 Ionawr

- ◆ CGGC yn lobbio'n gryf ar raglenni Ewropeaidd newydd.
- ◆ Lansio *Anelu at Amcanion Cyffredin* yng ngogledd Cymru.
- ◆ Lansio *Tyfiant Gwyrdd*, cyhoeddiad ar y cyd gan CGGC/Cyfeillion y Ddaear Cymru, i'r cyfryngau.

## Chwefror

- ◆ Lansio adroddiad CGGC ar ofal cymunedol i'r cyfryngau.
- ◆ Lansio pecyn gwytodaeth CGGC i ymddiriedolwyr gyda'r prif gomisynydd elusennau, Richard Fries.

## Mawrth

- ◆ CGGC yn trefnu *Codi Pontydd* yng Nghaerdydd gyda dau ddeg wyth o ymddiriedolaethau elusennol Prydeinig.
- ◆ Y Llywodraeth yn lansio Menter Wirfoddoli 'Make a Difference'.
- ◆ Mesur Hawliau Sifil (Personau Anabl) yn y Senedd.
- ◆ CGGC yn cyhoeddi *Coel hyd i'r cyllid* - arolwg o gyllid llywodraeth leol i grwpiau gwirfoddol a *Ydyn nhw'n gwrandao?* - arolwg o sut mae'r llywodraeth ganolog wedi rhoi'r argymhellion ynghylch Mesur Effeithiolrwydd ar waith.

Os ewch chi am wely a brecwast ar y ffordd i Lanelwyr yw dro peidiwch â synnu'ch cael eich hunan yn rhan o Brosiect Hyfforddi Gwely a Brecwast sy'n cael ei redeg gan Goleg Addysg Bellach Pengwern. Mae grant o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a hwyluswyd gan CGGC yn sicrhau bod y prosiect hwn yn rhoi hyfforddiant galwedigaethol addas ac unigryw i bobl ag anawsterau dysgu difrifol. Nid oes unrhyw beth y tu allan nac y tu mewn i'r caban gwyliau i ddangos ei gysylltiad â Phengwern, ac y mae cydnabyddiaeth y Bwrdd Croeso a'r glod uchel yn llyfr yr ymwelwyr yn ddigon o dystiolaeth i'w lwyddiant. Bydd tua chwe myfyriwr yn byw yno bob blwyddyn er mwyn datblygu sgiliau mewn arlwy, darparu gweithgareddau hamdden a lletygarwch gan ennill cymwysterau cenedlaethol.




**Y fantolen ar 31 Mawrth 1994**

|                                      | 1994           | 1993           |
|--------------------------------------|----------------|----------------|
| <b>Asedau sefydlog</b>               |                |                |
| Asedau sylweddol                     |                |                |
| Eiddo rhydd-ddaliad                  | 340,000        | 340,000        |
| Cerbydau                             | 13,469         | 7,000          |
|                                      | <u>353,469</u> | <u>347,000</u> |
| <b>Asedau cyfredol</b>               |                |                |
| Buddsoddiadau                        | 120,652        | 100,832        |
| Dyledwyr a rhagdaliadau              | 22,058         | 11,708         |
| Arian parod yn y banc                | 152,006        | 158,109        |
| Arian parod mewn llaw                | 124            | 148            |
|                                      | <u>294,840</u> | <u>270,797</u> |
| <b>Credydwyr</b>                     |                |                |
| Symiau dyledus o fewn blwyddyn       | 165,937        | 155,350        |
| Asedau cyfredol net                  | 128,903        | 115,447        |
| Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | 482,372        | 462,447        |
| <b>Credydwyr</b>                     |                |                |
| Symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 3,982          | —              |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 65,000         | 50,000         |
|                                      | <u>413,390</u> | <u>412,447</u> |
| <b>Cronfeydd</b>                     |                |                |
| Cyllid cronedig                      | 190,888        | 189,945        |
| Cronfeydd adbrisio                   | 222,502        | 222,502        |
|                                      | <u>413,390</u> | <u>412,447</u> |

**Cyfrif incwm a gwarint ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 1994**




|  | 1994           | 1993           |
|--|----------------|----------------|
| <b>Incwm</b>                                 |                |                |
| Grantiau at ddibenion cyffredinol            |                |                |
| Y Swyddfa Gymreig                            | 378,532        | 354,970        |
| Sefydliad Cymorth i Elusennau                | 48,344         | 42,966         |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop - Cyflogaeth       | 9,345          | —              |
| Sefydliad Allen Lane                         | 1,000          | —              |
| Banc y National Westminster                  | —              | 11,500         |
| British Petroleum                            | —              | 7,500          |
| Sefydliad Gulbenkian (Lisbon)                | —              | 6,000          |
| Y Post Brenhinol                             | —              | 5,000          |
| British Telecom                              | —              | 3,437          |
| Marks a Spencer                              | —              | 1,100          |
| Cyngor Sir De Morgannwg                      | —              | 500            |
|  | <u>437,221</u> | <u>432,973</u> |
| Grantiau at ddibenion penodol                |                |                |
| Y Swyddfa Gymreig -- Grant tuag at y Gymraeg | 4,750          | 9,300          |
| Wythnos Wirfoddolwyr                         | 4,786          | —              |
| Deddf Blant                                  | —              | 12,196         |
| Yr Wyl Erddi                                 | —              | 1,000          |
|  | <u>9,536</u>   | <u>22,496</u>  |
| <b>Incwm arall</b>                           |                |                |
| Gwariant a adenillwyd ac incwm amrywiol      | 108,252        | 100,976        |
| Incwm buddsoddi ac o'r banc (gros)           | 21,331         | 25,264         |
| Tansgriffiadau a chyfraniadau                | 5,432          | 5,266          |
|  | <u>135,015</u> | <u>131,506</u> |
| Gwirfoddoli yng Nghymru                      | 221,000        | 215,000        |
| Incwm gweithredol                            | 802,772        | 801,975        |



**Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 1994**

**Lle mae'r arian yn mynd Gwariant**

|   | 1994           | 1993           |
|---|----------------|----------------|
| <b>Incwm gweithredol a ddygwyd ymlaen</b>     | 802,772        | 801,975        |
| <b>Gwariant</b>                               |                |                |
| Costau gweinyddol                             |                |                |
| Cyflogau a chostau staff                      | 343,839        | 340,016        |
| Hyfforddiant staff                            | 4,957          | 9,602          |
| Teithio a threuliau                           | 24,765         | 24,438         |
| Lesio a chynnal a chadw offer                 | 14,375         | 10,979         |
| Yswiriannau                                   | 998            | 966            |
| Argraffu, papur a deunyddiau                  | 19,333         | 18,703         |
| Postio a ffôn                                 | 29,779         | 24,576         |
| Cyhoeddiadau a hysbysebu                      | 19,372         | 19,714         |
| Cynadleddau, cyfarfodydd a chyrsiau hyfforddi | 34,900         | 43,151         |
| Treuliau amrywiol                             | 1,384          | 2,551          |
| Tâl i archwilyr cyfrifon                      | 3,500          | 3,000          |
| Costau cyfrifadurol                           | 4,848          | 9,766          |
| Costau ymgynghorwyr                           | 15,594         | 8,609          |
| Car - dibrisiant a cholled                    | 6,500          | 3,000          |
| Costau cyfieithu                              | 4,318          | 9,998          |
| Costau banc                                   | 729            | -              |
|   | <u>529,191</u> | <u>529,069</u> |
| <b>Costau llety</b>                           |                |                |
| Rhenti a threthi                              | 13,611         | 11,572         |
| Yswiriant                                     | 997            | 966            |
| Golau a gwres                                 | 10,134         | 5,881          |
| Glanhau a chynnal a cadw                      | 3,008          | 4,938          |
| Darpariaeth at gynnal yr adeilad              | 15,000         | 15,000         |
|   | <u>42,750</u>  | <u>38,357</u>  |
| <b>Gwariant ar asedau sefydlog</b>            |                |                |
| Celfi a chyfarpar swyddfa                     | 8,888          | 16,458         |
| Gwirfoddoli yng Nghymru                       | 221,000        | 215,000        |
|   | <u>801,829</u> | <u>798,884</u> |
| <b>Gwarged gweithredol</b>                    | 943            | 3,091          |
| <b>Gwarged ar werthu asedau</b>               | -              | 9,075          |
|   | <u>943</u>     | <u>12,166</u>  |



**Polisiau cadw cyfrifon**

- ◆ Darparwyd y cyfrifon o dan y confensiwn costau hanesyddol wedi newidiadau yn sgil ad-brisio eiddo rhydd-ddaliad.
- ◆ Cynhwysir llog y banc fel incwm cronedig. Cynhwysir y cyfraniadau a dderbyniwyd. Cynhwysir grantiau yn y flwyddyn briodol.
- ◆ Ni wnaed cyfrif am stocio o gyhoeddiadau neu bapur.
- ◆ Codir ar raddfa o 30% o gost y car am ddibrisiant.

Mae set gyflawn o'r adroddiadau a chyfrifon ar gael oddi wrth Mr D Morris, ysgrifennydd y cwmni, CCGG, Llys Ifor, Heol Crescent, Caerffili, CF8 1XL, ffon 0222 869224.

Ni chafodd copi ei feillio gyda'r Comisiynywyr Elusennau.

At aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Ym marn archwilyr y cyfrifon, Zeidman a Davis, mae'r crynodeb o'r cyfrifon yn y ddogfen hon yn gyson â'r cyfrifon llawn am yr un flwyddyn. Roedd adroddiad yr archwilyr ar y cyfrifon llawn yn ddiadmod.

*Zeidman a Davis*

Zeidman & Davis  
Cyfrifwyr Ardystiedig  
Archwilyr Cyfrifon  
Cofrestredig  
Ty Lawrence,  
Caerffili,  
Morgannwg Ganol.



## Pwyllgor Gwaith

Llywydd  
Iarll Lisburne

Trysorydd Anrhydeddus  
Mr W P Kitson

Cyfreithiwr Anrhydeddus  
Messrs Phillips & Buck

Cadeirydd (hyd fis Hydref  
1993)

Sir Donald Walters

Cadeirydd  
Mrs Marjorie Dykins

Is-gadeirydd (hyd fis Hydref  
1993)

Yr Athro George Thomason, CBE

Is-gadeirydd  
Jane Hutt

Dr N Ahmad

Mrs Pat Bowen

Yr Athro Maurice Broady

Lt Col David Cox LVO MBE

Mrs Ceinwen Davies

Mr John Ashton Edwards OBE

Mr Hywel V Evans

Ms S Meryl Evans

Mr Simon Hebditch

Mr Phil Jarrold

Y Parch Frank Jenkins

Mr John R Jones

Ms Jane Lewes

Mr John Payne

Mr D Marc Phillips

Mr Drew Reith

Ms Jenny Render

Mr Robert Taylor

Mrs Margaret Thorne OBE DL

Mr P K Verma, YH

## Aseswyr ar ran y Pwyllgor Gwaith

Mr Alan Thornton,  
Y Swyddfa Gymreig

Mr David G Evans, Y Swyddfa Gymreig

## Archwilwyr Cyfrifon

Zeidman & Davis

## Bancwyr

National Westminster Bank ccc.



Iarll Lisburne  
Llywydd CCGG



Jane Hutt  
Is-gadeirydd CCGG



Douglas Morris  
Ysgrifennydd y  
Cwmni/Swyddog  
Cyllid



John Ashton Edwards  
Aelod o'r Pwyllgor  
Gwaith



Stan Salter  
Gweinyddydd y  
Gronfa



Jan Bish  
Cynorthwydd Personol  
i'r Cyfarwyddwr



Marc Phillips  
Aelod o'r Pwyllgor  
Gwaith

## Staff y Cyngor Mawrth 1993/94

Cyfarwyddwr Graham Benfield

Cynorthwydd Personol  
i'r Cyfarwyddwr Jan Bish

Ysgrifennydd y Cwmni/  
Swyddog Cyllid Douglas Morris

Is-swyddog Cyllid Vida Davies

Rheolwraig Gwybodaeth  
ac Ymchwil Lynda Garfield

Cynorthwydd  
Gwybodaeth Aled Llwyd Evans

Swyddog y Wasg a  
Chyhoeddiadau Penny Taylor

Swyddog Hyfforddi a  
Chynadleddau Ruth Marks

Gweinyddydd Hyfforddi a  
Chynadleddau Sue Hutchings

Swyddog Datblygu  
Lleol Jane Jones

Swyddog Datblygu  
Cenedlaethol Peter Bryant

Swyddog Cyngor  
Cyllido Margaret Bond

Gweinyddydd y Gronfa Stan Salter

Swyddog Cefn Gwlad  
ac Ewrop Dewi Llwyd Evans

Swyddog Cronfa  
Gymdeithasol Ewrop Helen McLaughlin

Gweinyddydd y  
Swyddfa Lyn Lawton

Swyddog Gogledd  
Cymru Michael Palmer

Swyddog Codi  
Arian Lindsey Williams

Goruchwylydd y  
Swyddfa Diane Roberts

Cynorthwydd Clerigol a Swyddog  
Iechyd a Diogelwch Wendy Bidgway

Cynorthwydd y Swyddfa Kathryn Thomas

Porthor Ron Pask

Glanhawraig y Swyddfa Ann Greenway

*Dymuna CCGG ddiolch i'r mudiadau canlynol am eu cefnogaeth*

- \* Y Swyddfa Gymreig
- \* Cyngor Dinas Caerdydd
- \* Cyngor Sir De Morgannwg
- \* Ymddiriedolaeth Elusennal Esnee Fairbairn
- \* Sefydliad Allen Lane
- \* Banc y National Westminster
- \* Ymddiriedolaeth Tudor
- \* Sefydliad Calouste Gulbenkian
- \* Ymddiriedolaeth Carnegie ym Mhrydain
- \* Sefydliad Lankelly